Jedi...Crefydd Newydd?

Roedd un o'r cwestiynau yng Nghyfrifiad 2001 yn holi pobl am eu crefydd. Cyn diwrnod y Cyfrifiad, anfonwyd ebost at nifer fawr o'r boblogaeth, yn dweud os byddai 10,000 o bobl yn nodi 'Jedi' fel eu crefydd yn yr adran 'Arall' yna byddai'r Llywodraeth yn gorfod gwneud Jedi yn grefydd swyddogol.
I'r rhai ohonoch nad ydych yn gwybod, mae Marchogion Jedi yn ymddangos yn y gyfres o ffilmiau Star Wars ac mae ganddynt system o gredoau, yn seiliedig ar ddefnyddio'r grym, neu 'the force'.
Er mai tric oedd yr ebost, fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi rhyddhau data am bobl a nododd Jedi fel ymateb ar ffurflen y Cyfrifiad.
Llwythwch ffeil y daenlen (Link) ac archwiliwch y data.

Edrychwch ar y daenlen. Dyma rai cwestiynau yr hoffech eu hateb o bosibl:

- Faint o bobl yng Nghymru a Lloegr a atebodd y cwestiwn ar grefydd?
- Edrychwch ar yr 'ardaloedd' gwahanol; defnyddiwch y swyddogaeth 'find' i weld faint o bobl yn eich ardal a nododd 'Jedi'. Defnyddiwch feddalwedd y daenlen i gyfrifo beth oedd canran yr ymatebwyr a nododd 'Jedi'. Rhowch y rhestr yn nhrefn yr wyddor; pa ardaloedd sydd ar frig ac ar waelod y rhestr? Pa ardal oedd â'r nifer fwyaf o bobl a atebodd 'Jedi'? A yw hyn yn golygu mai 'Jedi' yw'r grefydd fwyaf poblogaidd yn yr ardal hon? Dylech gyfiawnhau eich ateb.
- Meddyliwch sut y gallech ddangos pa ardal oedd â'r gyfran uchaf o bobl a ddywedodd mai 'Jedi' oedd eu crefydd.
- Rhestrwch y deg o leoedd â'r gyfran uchaf o bobl a nododd 'Jedi'. Allwch chi feddwl am rai o'r rhesymau pam bod y lleoedd hyn yn ymddangos ar frig y rhestr?
- Efallai yr hoffech ystyried y ffaith mai ar 29ain Ebrill 2001 y cynhaliwyd y Cyfrifiad, y math o berson a fyddai wedi darllen yr ebost, neu a fyddai'n cael eu denu at y syniad o ymateb 'Jedi', neu'r mathau o sefydliadau yn y deg ardal â'r gyfran uchaf.

Defnyddiwch y cysylltiadau canlynol i'ch helpu i ysgrifennu adroddiad ar eich canfyddiadau:
http://news.bbc.co.uk/1/hi/technology/1271380.stm
http://www.statistics.gov.uk/cci/nugget.asp?id=297
http://www.statistics.gov.uk/census2001/profiles/rank/jedi.asp

"But it doesn't matter whether you put Jedi, Manchester United, Chelsea, or whatever. It's completely erroneous, it's going to have no impact whatsoever."
Daeth yr e-bost i ben fel hyn: "If this has been your dream since you were six years old... do it because you love Star Wars. If not... then just do it to annoy people."
Jedi yw'r crefydd y mae arwyr y ffilmiau Star Wars yn ei ddilyn, a dywedir mai grym ydyw a gaiff ei greu ban bopeth byw – mae hyn yn esbonio'r dywediad "may the force be with you".
"It surrounds us and penetrates us. It binds the galaxy together," dywedodd Syr Alec Guinness yn Star Wars ym 1977.